**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 11 Chwefror 2022 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| L V Walton | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Nick Huffer | Cyfreithiwr Cyflogaeth |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Trwyddedu Tacsis |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: L G Thomas

---

## 43 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 44 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2022 yn gofnod cywir.

## 45 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 46 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am roi Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - MIMB

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol - Trwyddedu Tacsis yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â MIMB.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd MIMB yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau’r aelodau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cais MIMB am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.
2) Rhoi llythyr rhybuddio cryf i MIMB ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

Rheswm dros y penderfyniad

Roedd aelodau'n fodlon bod gan MIMB gefnogaeth ddigonol gan wasanaethau proffesiynol er mwyn sicrhau na fydd digwyddiadau tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.02am

**Cadeirydd**